# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Mae'r adroddiadau canlynol yn Eitemau Gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg.

1 Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2020.

2 Trefniadau Derbyn Arfaethedig 2022/23.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES
# 10 MAWRTH 2021

**PWNC:** **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2020**

**ADRODDIAD GAN:** **RICHARD EDMUNDS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - GWASANAETHAU ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Bydd yr adroddiad gwybodaeth hwn ar gyfer aelodau yn egluro cynnydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn ystod 2020.

## 2. CRYNODEB

2.1 Bu cynnydd da yn WESP 2017-2020 sydd wedi'i ymestyn am flwyddyn oherwydd COVID-19. Mae'r WESP pum mlynedd newydd yn cael ei ddatblygu yn 2021 ond ni fydd yn dod i rym tan fis Medi 2022.

2.2 Yn ystod 2020 bu cynnydd da wrth symud ymlaen â phrosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg. Bu gostyngiad bach nghanran y nifer o geisiadau am ofal plant cyfrwng Cymraeg ond cynnydd cyffredinol mewn mynediad i leoedd ysgolion cynradd Cymraeg. Mae cyfradd bontio ragorol wedi parhau rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac mae'r cyfraddau trosglwyddo ar gyfer llawer o’r Cylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd Cymraeg wedi gwella. Fodd bynnag, mae gan dri Cylch Meithrin gyfraddau trosglwyddo isel (o dan 60%)

2.3 Yn ystod 2020, cynhaliodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ddarpariaeth hyb lwyddiannus ar gyfer gweithwyr hanfodol a dysgwyr agored i niwed. Mae'r clwstwr cyfrwng Cymraeg wedi datblygu cynnig dysgu o bell yn ogystal â chynyddu canran y dysgwyr 14-19 oed sy'n astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) y clwstwr hefyd wedi gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod nhw’n gallu cynnig darpariaeth addas ar gyfer pob dysgwr cyfrwng Cymraeg

2.4 Mae gan y cynllun blynyddol 5 cam flaenoriaeth ar gyfer 2021 fel y rhestrir isod.

- Blaenoriaeth 1: symud ymlaen yn y rhaglen datblygu cyfalaf i ehangu darpariaeth Addysg cyfrwng Cymraeg.

- Blaenoriaeth 2: archwilio ymhellach y rhesymau dros y tair cyfradd drosglwyddo isaf rhwng y Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddatgelu effaith coronafeirws

- Blaenoriaeth 3: datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg

- Blaenoriaeth 4: gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg

- Blaenoriaeth 5: datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd a'r setiau data priodol yn barod i'w gweithredu erbyn Medi 2022

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Bod yr aelodau'n cael yr adroddiad er gwybodaeth ac yn nodi'r cynnydd a wnaed yn 2020.

## 4. RHESYMAU AM Y ARGYMHELLION

4.1 Cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r WESP wedi gwneud cynnydd yn ystod 2020 er bod cynnydd wedi'i arafu neu ei newid mewn sawl maes mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws. Mae'r WESP pum mlynedd newydd wedi'i ohirio am flwyddyn ac felly bydd yn cael ei ddatblygu yn 2021 er mwyn dod i rym o fis Medi 2022.

5.2 **Canlyniad 1: Rhagor o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**
Yn ystod 2020 bu gostyngiad bach nghanran y nifer o blant a oedd yn gofyn am leoedd Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, bu cynnydd bach yn gyffredinol yng nghanran y plant yn yr ysgol gynradd Gymraeg yn ystod 2020.

Yn dilyn oedi mewn un cynllun, mae'r cynlluniau cyfalaf cyfrwng Cymraeg a gynlluniwyd yn dod yn eu blaenau yn dda.

Yn ystod tymor haf 2020, caewyd llawer o ddarpariaethau Cylch Meithrin a Menter Iaith Caerffili a gafodd effaith ar fynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ailagorodd llawer o leoliadau ym mis Medi 2020 gyda dim ond y Clwb Carco a Clwb Gwyliau yn parhau i fod ar gau ar hyn o bryd.

5.3 **Canlyniad 2: Rhagor o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd**
Mae set ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos cyfradd drosglwyddo o 99.8% rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd, sy'n rhagorol.

O'r 14 Cylch Meithrin, mae 1 wedi cau, 1 wedi newid i fod yn ddwyieithog ac nid yw bellach yn aelod Mudiad Meithrin ac mae 1 yn cynnig gwasanaeth cofleidiol yn unig

ac felly mae'n gweithio ochr yn ochr â meithrinfa'r ysgol ran amser. Mae gan y mwyafrif o'r Cylchoedd Meithrin sy'n weddill gyfraddau trosglwyddo sy'n uwch na 65%, gyda dim ond 3 yn is na'r ganran hon ac mae 2 ohonynt gydag oddeutu 25% o blant yn trosglwyddo i feithrinfa Gymraeg. Mae hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt i swyddog Mudiad Meithrin a thîm blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, er y gallai fod angen archwilio ymhellach i ddarganfod achos y gyfradd drosglwyddo isel hon. Caeodd llawer o Gylchoedd Meithrin rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 ac felly mae'n bosibl bod y niferoedd trosglwyddo wedi cael eu heffeithio'n andwyol. Fodd bynnag, mae angen ddarganfod yr achos a pheidio â chymryd yn ganiataol mai effaith coronafeirws yn unig yn ystod tymor yr haf yw achos y gyfradd drosglwyddo isel hon.

Mae 21 o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (gan gynnwys 17 lleoliad sy'n cael eu rhedeg gan Menter Iaith Caerffili) sydd ddim yn aelodau Mudiad Meithrin ac felly nid yw eu data wedi'i gynnwys yn y data trosglwyddo a nodwyd er eu bod yn cyfrannu'n sylweddol at wella Cymraeg plant a phobl ifanc.

5.4 **Canlyniad 3: Rhagor o bobl ifanc 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg**

Gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20 yn seiliedig ar ddata'r CYBLD er bod y nifer yng Ngholeg y Cymoedd sy'n astudio unedau gofal cwsmer cyfrwng Cymraeg wedi gostwng oherwydd effaith COVID-19.

Addasodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ei darpariaeth i gefnogi dysgu ar-lein yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac oherwydd y niferoedd llai ar safle'r ysgol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a'u llwytho i blatfform ystafell ddosbarth Google.

5.5 **Canlyniad 4: Rhagor o bobl ifanc 16-19 oed yn astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith**

Bu cynnydd yn y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20 ar ffurflen y CYBLD.

Fodd bynnag, bu gostyngiad bach yng Ngholeg y Cymoedd oherwydd effaith COVID-19.

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi parhau i weithio gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Menter Iaith a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gefnogi pobl ifanc gyda gweithgareddau Cymraeg ychwanegol trwy gydol yr ymateb i CCOVID-19.

5.6 **Canlyniad 5: Rhagor o ddysgwyr â sgiliau uwch yn Gymraeg**

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, cynhaliodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni hyb ar gyfer plant a phobl ifanc y gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed. Roedd hyn yn galluogi nifer ehangach o blant i gael mynediad at weithgareddau a chymorth drwy'r Gymraeg. Wrth redeg yr hyb, parhaodd staff yr ysgol i gynnig cyfleoedd dysgu o bell i'w dysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau a'u dysgu Cymraeg.

Symudodd Coleg y Cymoedd hefyd i ddysgu ar-lein ar draws y pedwar campws. Roedd hyn hefyd yn galluogi rhagor o fyfyrwyr i ymuno â gweithgareddau yn Gymraeg o bob un o'r pedwar campws ac roedd ganddo fuddion sylweddol i gynorthwyo eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) wedi datblygu deunydd hyrwyddol ar gyfer rhieni er mwyn eu cynorthwyo i ddysgu eu plant a sicrhau bod ganddynt gysylltiadau ag amrywiol sefydliadau cymorth ac adnoddau. Mae pob ysgol gynradd Gymraeg yn rhanbarth y GCA wedi ennill gwobr arian y Siarter Iaith Gymraeg, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi cael cymorth Ysgol Penalltau a'u Criw Cymraeg ar Twitter.

5.7 **Canlyniad 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
Gwelwyd cynnydd yng nghanran y plant a nodwyd gydag ADY yn ystod 2019/20. Mae'r ysgolion i gyd wedi cwblhau'r adnodd parodrwydd ADY ac mae CADY yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ysgolion yn gallu cynnig darpariaeth addas ar gyfer pob dysgwr cyfrwng Cymraeg. Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gymraeg Cwm Derwen ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Safle Gelli Haf) yn gweithio i gefnogi'r clwstwr i nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu orau yn eu prif ysgol a'r rhai sydd angen darpariaeth fwy arbenigol.

5.8 **Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus**
Mewn ymateb i COVID-19, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cynorthwyo datblygu'r gweithlu wedi symud i ddysgu ar-lein yn ystod 2020, a thrwy hynny, meant yn gallu cyrraedd ystod ehangach o ddysgwyr.

5.9 **Casgliad**
Mae'r adroddiad blynyddol wedi tynnu sylw at gamau blaenoriaeth yn ystod 2021 a restrir isod.

Blaenoriaeth 1: symud ymlaen yn y rhaglen datblygu cyfalaf i ehangu darpariaeth Addysg gyfrwng Cymru

Blaenoriaeth 2: archwilio ymhellach y rhesymau dros y tair cyfradd drosglwyddo isaf rhwng Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd ysgolion cyfrwng Cymraeg

Blaenoriaeth 3: datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg

Blaenoriaeth 4: gweithredu'r Ddeddf ADY ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg

Blaenoriaeth 5: datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd a setiau data priodol yn barod i'w weithredu erbyn Medi 2022

## 6. TYBIAETHAU

6.1 Does dim tybiaethau pendodol.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU’R CYNGOR SY’N BERTHNASOL

7.1 **Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb

7.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerphilly 2020-2024
Strategaeth Gymraeg Pum Mlynedd 2017-2022
Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru
Cynllun Lles Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerphilly
Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir mewn Addysg
Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Band B
Rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg

Rhaglen gyfalaf gofal plant
Deddf ADY a Chynllun rhanbarthol trawsnewid system ADY

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant:-

- Cymru lewyrchus - plant, pobl ifanc ac oedolion sydd â sgiliau priodol ar gyfer gweithlu dwyieithog
- Cymru iachach - amgylcheddau dysgu priodol i gefnogi lles pob dysgwr
- Cymru sy'n fwy cyfartal - darpariaeth briodol ar gyfer pob dysgwr gan gynnwys y rhai mwyaf galluog neu fwyaf agored i niwed
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - ymrwymiad i gefnogi diwylliant Cymru yn ogystal â chynyddu'r lleoedd sydd ar gael yn y ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

8.2 Mae'r adroddiad yn dangos y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy:

- Tymor Hir - Bydd datblygiad y WESP yn anelu at gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion tymor hir mewn gwlad ddwyieithog
- Atal - Mae'r WESP yn ystyried yr holl ddarpariaeth sy'n ofynnol gan gynnwys cefnogi lles ein holl ddysgwyr yn ogystal â darpariaeth benodol ar gyfer ein dysgwyr mwyaf agored i niwed.
- Integreiddio - Mae gan y WESP ganlyniadau sy'n cyd-fynd â nifer o bolisïau a chynlluniau strategol eraill.
- Cydweithio - Mae Fforwm Addysg Cymru yn galluogi pob aelod o ystod amrywiol o sefydliadau i ddod â'u sgiliau a'u harbenigedd i ddatblygu WESP cyfannol i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ein cymunedau.
- Cyfranogiad - Mae gan Fforwm Addysg Cymru aelodaeth o'r Rhwydwaith Rhieni, Menter Iaith a Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) i sicrhau bod safbwyntiau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu hymgorffori trwy ddatblygiad y WESP. Bydd y WESP hefyd yn destun ymgynghoriad llawn yn ystod 2019 i sicrhau bod sylwadau eang yn cael eu hymgorffori.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Ar hyn o bryd nid oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru ond bydd un yn cael ei gwblhau gyda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg arfaethedig newydd sydd i'w ddatblygu yn 2021 a'i weithredu o fis Medi 2022. Mae'r WESP yn ysgogi'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac Addysg Gymraeg i alluogi ymgysylltiad cadarnhaol ar draws pob cymuned â'r Gymraeg. Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol i'r WESP gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg ar draws cymunedau trwy ysgolion cyfrwng Cymraeg ac Addysg Bellach ynghyd â chymorth cymunedol ehangach i rieni ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae cysylltiadau sylweddol â'r strategaethau cydraddoldeb, Ysgolion yr 21ain Ganrif a strategaethau Cymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ogystal â strategaeth Llywodraethau Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Does dim goblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn gan fod unrhyw adnoddau sydd eu

hangen wedi'u hymgorffori yn yr adnoddau a'r cynlluniau presennol.

**11. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

11.1 Does dim goblygiadau personél i'r adroddiad hwn.

**12. YMGYNGHORIADAU**

12.1 Mae'r holl safbwyntiau yn yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

**13. PŴER STATUDOL**

13.1 Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Awdur: Sarah Mutch, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau, mutchs@caerffili.gov.uk

Ymgynghoreion:
Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Cynghorydd Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151 dros dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Sue Richards, Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth
Sarah Ellis, Arweinydd Cynhwysiant ac ADY
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Jane Southcombe, Rheolwr Gwasanaethau Ariannol
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau i Bobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Swyddog Gwella Busnes
Fforwm Addysg Cymru

Atodiadau:
Atodiad 1 WESP Adroddiad adolygiad blynyddol Rhagfyr 2020 Cymraeg

| ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL<br>CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG<br><br>RHAGFYR 2020 |
|---|
| **CYNLLUN CRYNO CYFFREDINOL** |
| Yn ystod 2020 bu cryn waith partneriaeth, atebion arloesol a chreadigol er mwyn cefnogi darpariaeth Gymraeg a chefnogi gofal plant i blant gweithwyr allweddol a phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ystod yr ymateb i bandemig y Coronafeirws, ac rydym yn asesu ein cynnydd fel GWYRDD |
| **Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** |
| **DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL** |
| Y nifer o blant mewn lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg y gofynnwyd amdanynt rhwng Ionawr a Mawrth 2020 yw 16 (13.11%), sef gostyngiad canrannol bach o'i gymharu â 26 (13.26%) Ebrill i Awst 2019 [heriad data o ran y cyfnod Ebrill i Awst 2020 oherwydd effaith Covid]<br>Y nifer o blant mewn lleoedd Cynnig Gofal Plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ym Medi 2020 yw 165 o 528 (31.25%), sy'n ostyngiad o'i gymharu â 248 o 672 (36.90%) ar gyfer Medi 2019.<br>Y nifer o blant mewn Meithrinfa Cyfrwng Cymraeg (N2) ym Medi 2020 yw 344 (18.78%), sef cynnydd canrannol bach o'i gymharu â 362 (18.66%) ym Medi 2019.<br>Y nifer o blant mewn dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg ym Medi 2020 yw 369 (18.42%), sef gostyngiad canrannol bach o'i gymharu â 383 (18.52%) ym Medi 2019.<br>Y nifer o blant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Medi 2019 yw 2888 (17.62%), sef cynnydd canrannol bach o'i gymharu â 2918 (17.55%) ym Medi 2019. |
| **GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO** |
| Mae'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i gynyddu'r lleoedd sydd ar gael yn y ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn bodloni dewis a thueddiadau rhieni mewn data genedigaethau byw.<br><br>Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i weithio gyda Menter Iaith Caerffili a Mudiad Meithrin yn ogystal â'r sector gofal plant i sicrhau bod digon o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael wrth i'r galw gael ei ysgogi. |
| **CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU** |

**Diweddariad Ysgolion yr 21ain Ganrif:**

Mae 5 prosiect wedi'u nodi'n benodol yng Ngrant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymgynghoriaeth Adeiladu wedi nodi y bu oedi i un o'r prosiectau hynny hyd yma oherwydd "argaeledd deunyddiau oherwydd bod gweithgynhyrchwyr wedi cau yn ystod y cyfyngiadau cloi."

Nodwyd gwaith ychwanegol hefyd ar safleoedd Cyfrwng Cymraeg drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf Addysg ac maent yn cael eu datblygu.
Mae yna gyswllt agos â'r ysgolion i alluogi mynediad ar amseroedd sy'n gyfleus i'r ddwy ochr oherwydd cyfyngiadau Covid ar lawer o safleoedd ysgolion.

Mae'r Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yng Nghaerffili wrthi'n datblygu ei chynlluniau Cam 1 drwy'r prosesau statudol a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi'i nodi fel un o'r cynlluniau blaenoriaeth ac yn ddiweddar mae wedi cael cymeradwyaeth gan y Cabinet i symud ymlaen i ymgynghoriad statudol ffurfiol drwy gyhoeddi Hysbysiad Statudol, sydd i'w gyhoeddi ar yr 11eg Ionawr 2021.

**Diweddariadau Blynyddoedd Cynnar a phartneriaid:**
Yn ystod 2020 mae tîm y Blynyddoedd Cynnar wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled y fwrdeistref, gan gynnwys cynyddu'r rhai sy'n cynnig darpariaeth wedi'i hariannu drwy gynlluniau Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant a Lleoedd a Gynorthwyir. Er bod llawer o leoliadau gofal plant yn darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg, mae'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth a ariennir wedi gostwng ychydig sydd, yn ein barn ni, yn rhannol oherwydd effaith Covid ac effaith cymysgu swigod mewn gwahanol ddarpariaethau rhan-amser, yn ogystal ag effaith ar batrymau gwaith teuluoedd.

Yn ystod mis Mawrth i fis Mehefin 2020 caeodd llawer o leoliadau cyfrwng Cymraeg ac ni wnaeth mwyafrif ailagor tan fis Medi 2020. Parhaodd gwaddol y ddarpariaeth a ariannwyd o Ddechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod lleoliadau'n parhau'n hyfyw i ailagor ym mis Medi, unwaith i effaith Covid lleihau. Fodd bynnag, cafodd grwpiau Menter Iaith Caerffili eu heffeithio'n fwy difrifol gyda chymysgu swigod oherwydd yr amrywiaeth o grwpiau oedran y darperir ar eu cyfer yn y ddarpariaeth ôl-ysgol a gwyliau, a oedd yn peri mwy o risg bosibl. O'r herwydd, mae'r grwpiau hynny wedi aros ar gau ac yn cael eu hadolygu ym mis Ionawr.

Mae Menter Iaith Caerffili yn parhau i gefnogi a datblygu ein darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol:

- 1 Clwb Brecwast
- 5 Clwb Gwyliau
- 6 Clwb Meithrin (cofleidiol)
- 6 Clwb Carco

Yn ystod Mawrth-Awst 2020, caewyd ein holl ddarpariaeth Menter Iaith Caerffili oherwydd COVID-19. O ganlyniad, gosodwyd dros 60 aelod o staff ar y Cynllun Cadw Swyddi. Ym mis Medi 2020, roedd ein darpariaeth cofleidiol wedi bod yn gwbl weithredol, gyda chau ysbeidiol oherwydd achosion COVID-19. Mae Menter Iaith Caerffili wedi gallu dychwelyd y rhan fwyaf o'i gweithlu gofal plant ond ni fu'n bosibl ailagor y ddarpariaeth ôl-ysgol, gwyliau na brecwast. Ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid ysgolion, lle mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau wedi'u lleoli, penderfynwyd na fyddai'r darpariaethau hyn yn ailagor oherwydd effaith bosibl achosion COVID-19 yn y lleoliadau hyn, ar yr ysgolion perthnasol. Mae nifer o weithwyr gofal plant yn parhau i fod ar y

Cynllun Cadw Swyddi a bydd ailagor y darpariaethau hyn yn cael ei adolygu ym mis Ionawr 2021. Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a Menter Iaith Caerffili yn gyffredinol, yn enwedig cynaliadwyedd y gwasanaeth.

Mae Swyddogion Mudiad Meithrin wedi gweithio yn ardal Bedwas/Trethomas i ddatblygu Cylch Meithrin a Ti a Fi. Agorodd y Ti a Fi yn gyntaf er bod Covid wedi effeithio arno ers hynny a chafodd y Cylch ei effeithio a'i ohirio, gyda'r cofrestru heb ei gyflawni eto, er ei fod yn anelu at agor yn y flwyddyn newydd. Mae Mudiad Meithrin wedi parhau i gefnogi ei aelodau drwy gydol y pandemig.

## Canlyniad 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Mae set ddata CYBLD 2020 yn dangos cyfradd bontio o 99.8% o'r Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

**Dadansoddiad disgrifiadol o set ddata Mudiad Meithrin a gyflenwyd gan eu haelodau at ddibenion hygyrchedd:**

Dyma ddata'r lleoliadau sy'n aelod ar gyfer y Mudiad Meithrin ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2019-20. Dydy'r data ddim yn adlewyrchu'r lleoliadau sydd wedi newid eu statws neu sydd wedi penderfynu peidio â dod yn aelod, neu barhau â'u haelodaeth, gyda'r Mudiad Meithrin.

- Bu gostyngiad yn nifer y Cylchoedd Meithrin cofrestredig o 15 lleoliad i 12 lleoliad
- Arhosodd nifer y sesiynau dyddiol a gynigiwyd yn weddol sefydlog 18-20 tan 2019-20 pan ostyngodd i 16
- Mae nifer y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin wedi gostwng o 591 yn 2016-17 i 337 yn 2019-20
- Mae nifer y plant o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn parhau i fod yn isel er y bu cynnydd i 4.2%
- Daw mwyafrif y plant o gartrefi Saesneg eu hiaith (84%) gyda'r gweddill yn dod o gartrefi iaith gymysg (11.6%)
- Roedd y gyfradd drosglwyddo yn cynyddu o 72.3% yn 2015-16 i 83.5% yn 2018-19. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd hon yn 2019-20 i 74.9%.

Yn ystod 2019-20 bu newidiadau yn y Cylchoedd Meithrin, a allai fod wedi cyfrannu at y data newidiol uchod:

- Caeodd lleoliad Aberbargod 123, yng nghanol tref Aberbargod, ar 16/10/2019.
- Mae lleoliad Coed Duon, sydd wedi'i leoli ar safle Ysgol Gyfun Coed Duon, wedi'i gofrestru ar gyfer 19 o blant. Roedd 12 o blant yn mynychu ar 31/08/19, gyda 2 ohonyn nhw yn blant Dechrau'n deg. Mae gan y lleoliad cyfradd trosglwyddo o 66.7% i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae lleoliad Cwm Derwen, sydd wedi'i leoli ar safle Ysgol Cwm Derwen, wedi'i gofrestru ar gyfer 16 o blant. Roedd 11 o blant yn mynychu ar 31/08/19, gydag 1 yn blentyn Dechrau'n Deg ac mae ganddo gyfradd trosglwyddo o 100%.
- Mae lleoliad Cwm Gwyddon, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Cwm Gwyddon, wedi'i gofrestru ar gyfer 19 o blant ym mhob sesiwn. Mae'n cynnal 2 sesiwn y dydd ac roedd 28 o blant yn mynychu ar 31/08/19, a dim ohonyn nhw'n blant Dechrau'n Deg. Mae ganddyn nhw gyfradd trosglwyddo o 80%.
- Daeth leoliad Dewi Sant yn ddwyieithog, a bellach ddim yn aelod o'r Mudiad Meithrin. Maen nhw'n parhau i ddarparu 24 o leoedd ac yn cynnwys nifer fawr o blant Dechrau'n Deg.

- Mae lleoliad Ifor Bach, sydd wedi'i leoli ar Ysgol Ifor Bach, wedi'i gofrestru ar gyfer 19 o blant ym mhob sesiwn. Mae'n cynnal 2 sesiwn y dydd, ac roedd 29 o blant yn mynychu ar 31/08/19. Roedd 9 o blant Dechrau'n deg yn mynychu, a allai gyfrannu at gyfradd drosglwyddo is o 55.56%.
- Mae lleoliad Nelson, sydd wedi'i leoli yng nghanol pentref Nelson, wedi'i gofrestru ar gyfer 23 o blant, ac roedd 23 o blant yn mynychu ar 31/08/19, gyda 2 ohonyn nhw yn blant Dechrau'n Deg. Mae ganddyn nhw gyfradd drosglwyddo dda o 94.44%.
- Mae lleoliad Penpedairheol wedi'i leoli yn y ganolfan gymunedol yng nghanol y pentref ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer 24 o blant. Ar 31.08.19 roedd 18 o blant yn mynychu ond mae ganddyn nhw gyfradd drosglwyddo wael o 28.57%.
- Mae lleoliad Rhymni (Meithrin Mwy) wedi'i leoli yn Ysgol y Lawnt ac yn cynnig 28 lle cofrestredig ar gyfer darpariaeth cofleidiol o blant meithrin felly nid yw'r gyfradd drosglwyddo yn berthnasol. Roedd niferoedd isel o 5 yn 31.08.19, ond lleoliad newydd ydyw sy'n cynyddu'i niferoedd dros amser.
- Mae lleoliad Rhymni yn y ganolfan gymunedol yng nghanol pentref Rhymni wedi'i gofrestru ar gyfer 16 o blant ac yn gweithredu 2 sesiwn y dydd. Roedd 32 o blant yn mynychu, a 26 ohonyn nhw yn blant Dechrau'n Deg a chyfradd drosglwyddo dda o 86.21%.
- Mae lleoliad Tedi Twt yn Ysgol Gynradd Gilfach Fargod, ac mae wedi cofrestru ar gyfer 18 o blant ac yn gweithredu 2 sesiwn y dydd. Roedd 24 o blant yn mynychu ar 31.08.19, ac 17 ohonyn nhw yn blant Dechrau'n Deg. Mae ganddyn nhw gyfradd drosglwyddo dda o 90%.
- Mae lleoliad Tonyfelin yng nghanol tref Caerffili, yn yr eglwys, ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer 40 o blant. Ar 31/08/19 roedd 25 o blant yn mynychu ac roedd y gyfradd drosglwyddo yn dda, sef 95.65 i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae lleoliad Yr Enfys wedi'i leoli yn y ganolfan sydd cyferbyn ag Ysgol Bro Allta ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer 20 o blant. Roedd 18 o blant yn mynychu ar 31/08/19 ac roedd 3 ohonyn nhw yn blant Dechrau'n Deg. Mae ganddyn nhw gyfradd drosglwyddo o 100%.

## GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Mae Ysgolion Cynradd yn parhau i weithio'n agos gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gefnogi pontio cadarnhaol i bob disgybl a rhiant

Mae Menter Iaith Caerffili, yr Urdd ac Ysgolion yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgwyr ar draws y fwrdeistref i wella cyfleoedd datblygu'r Gymraeg yn y gymuned.

## CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

**Cymorth pontio Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ystod haf 2020:**

Roedd campws Gelli Haf yn ganolfan gofal plant allweddol i blant gweithwyr allweddol rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, a newidiodd i ystodau oedran cymysg 3 blynedd a hŷn. Roedd hyn yn galluogi rhai disgyblion i brofi'r safle a'r timau staff ehangach o bob rhan o'r clwstwr, cyn mynychu'r ysgol yn y mis Medi.

Parhaodd darpariaeth a chyfarfodydd pontio rheolaidd drwy gydol Cyfnod Clo'r Haf er mwyn newid trefniadau pontio, a darparwyd tasgau pontio ar-lein i'r plant nad oeddent, yn anffodus, yn gallu mynychu safleoedd yr ysgol. Trefnodd yr ysgol fideos rheolaidd i blant blwyddyn 6 er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'u hysgol newydd.

Darparodd yr ysgol amrywiaeth eang o drefniadau pontio ar-lein i blant sy'n symud rhwng gwahanol gyfnodau allweddol h.y. fideos ar-lein gan gynnwys nifer helaeth o staff a phersonél allweddol sy'n ymwneud â chynllunio'r trefniadau penodol. Roedd gwybodaeth reolaidd hefyd drwy negeseuon e-bost i ddisgyblion a rhieni.

Mae'r ymrwymiad parhaus hwn i gefnogi trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg i Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi galluogi'r gyfradd bontio i aros yn uchel ar bron i 100% bob blwyddyn.

**Menter Iaith Caerffili:**

Nod Menter Iaith Caerffili yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned yng Nghaerffili ar gyfer pob oedran, a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o wead cymdeithasol y sir drwy alluogi pobl i fyw a gweithio yn Gymraeg.
Mae'r Mentrau Iaith yn sefydliadau deinamig, gwirfoddol, cymunedol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru. Mae Menter Iaith Caerffili yn gweithio ar draws cymunedau Caerffili i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o bob oed, drwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol, gweithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau lleol i wneud y Gymraeg yn fwy hygyrch i bawb yn y sir, gan ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg, darpariaeth ieuenctid, dosbarthiadau Addysg oedolion, gweithgareddau gwyliau i blant a phobl ifanc, cymorth iaith Gymraeg i ddarparwyr gofal plant, ymgynghori a hyfforddi.

Mae Menter Iaith Caerffili yn darparu rhaglen amrywiol o gyfleoedd a gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o oedrannau, gan gynnwys y canlynol:

- Amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol, gweithdai, hyfforddiant a gweithgareddau i blant a phobl ifanc gyda phartneriaid lleol, yn dibynnu ar adnoddau a chyllid digonol a'r cyfleoedd amrywiol sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun.
- Parhau i gynnal asesiad o anghenion gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fapio cyfleoedd Cymraeg gymdeithasol bresennol yn y sir, a chreu strategaeth ar y cyd â phartneriaid lleol i geisio ymateb i fylchau a pharhau i ysgogi darpariaeth gymdeithasol. Cydlynu'r strategaeth hon drwy Fforwm y Gymraeg a fforymau lleol perthnasol eraill ac fel rhan o Strategaeth 5 mlynedd Bwrdeistref Caerffili i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y fwrdeistref.
- Ymateb i ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â'n gwaith fel Menter Iaith leol yng Nghaerffili, sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- Rhoi cefnogaeth ac arweiniad i unrhyw un sy'n dymuno darganfod mwy am y Gymraeg a sut i gael mynediad i'r iaith yng Nghaerffili.

**Y Siarter Iaith Gymraeg**

Yn ystod 2019-20, mae staff Menter Iaith Caerffili wedi parhau i gefnogi'r 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn eu hymrwymiad i'r Siarter Iaith sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol ond hefyd o fewn y gymuned. Yn ogystal â chefnogi ysgolion gyda phrosiectau o fewn yr ysgol, mae Menter Iaith Caerffili wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion a theuluoedd er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd o fewn y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal ag ymateb i anghenion penodol mewn ysgolion unigol.

Un prosiect allweddol sydd wedi cefnogi'r Siarter Iaith yn ystod y flwyddyn fu ein clybiau gemau fideo a'n gweithdai mewn ysgolion cynradd, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ac yn ystod y gwyliau o fewn cymunedau lleol. Mae'r prosiect hwn wedi ymateb i ddiddordeb plant a phobl ifanc ac wedi darparu llwyfan ar-lein cyfrwng Cymraeg i gysylltu â phlant a phobl ifanc eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws y fwrdeistref. Mae'r gwaith hwn hefyd yn ymateb i'r diffyg cynnwys

digidol cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc ac yn annog datblygiad rhwydweithiau digidol, cyfrwng Cymraeg lleol ac yn datblygu sgiliau digidol ymhlith pobl ifanc Cymraeg eu hiaith.

Ar gyfer ysgolion Uwchradd mae Swyddog Ieuenctid Cymraeg yn gweithio yn yr ardal sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a ariennir ar y cyd drwy'r Urdd, Menter Iaith Caerffili a CBS Caerffili. Maent yn cefnogi'r clybiau wythnosol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ogystal â digwyddiadau chwaraeon ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a theithiau preswyl, bu tripiau dramor gyda disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i Disneyland Paris a Sbaen, a Fforwm Ieuenctid Cymraeg. Mae amrywiaeth o deithiau dydd wedi'u cynllunio ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli ac achrediad i gefnogi pobl ifanc i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, mae'r Swyddog Ieuenctid yn cefnogi clwb wythnosol yn Yr Awyrendy, Aberbargod a gwaith ymgynghori.

Mae Menter Iaith Caerffili yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol o fewn nifer o weithdai a chlybiau yn ystod y tymor a gwyliau ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y cyfleoedd canlynol a ddarperir gan y Fenter Iaith:

- Sgwad Sgwennu Bob Tymor
- Gweithdai celf a chrefft, coginio yn ystod pob gwyliau ysgol
- Ffiiffest – gŵyl flynyddol yng Nghastell Caerffili sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a threftadaeth leol. Mynychodd dros 5000 o bobl y digwyddiad yn 2019.
- Sesiynau Miri Meithrin yn ystod holl wyliau'r ysgol – sesiynau chwarae gydag amrywiaeth o weithgareddau a stondinau gwybodaeth i rieni a phlant.
- Gweithgareddau awyr agored o fewn parciau lleol
- Clybiau digidol wythnosol i blant a phobl ifanc
- Clwb digidol misol i bobl ifanc
- Clwb Dawns Di-ri Wythnosol



Ers mis Ebrill 2020, mae darpariaeth Menter Iaith Caerffili wedi trosglwyddo i lwyfannau digidol ac wedi parhau i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg, ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr eraill yn lleol. Darparwyd hyn oll drwy Facebook a Zoom ac mae wedi cynnwys amrywiaeth o sesiynau gweithgareddau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r ddarpariaeth hon a'r gwaith partneriaeth yn parhau ac mae'r rhaglen yn parhau i ddatblygu. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer y cyfleoedd hyn yn gyfyngedig ac mae'n dibynnu ar Fenter Iaith Caerffili yn sicrhau ffynonellau ariannu. Bydd Menter Iaith Caerffili yn parhau i chwilio am ffynonellau ariannu pellach i gynnal y ddarpariaeth.

**Pontio o leoliadau gofal plant i feithrinfa ysgol**:

Yn ogystal â'r 12 Cylch Meithrin uchod sy'n aelodau o'r Mudiad Meithrin, mae lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eraill:

- 1 Lleoliad gofal plant cofrestredig Dechrau'n Deg sy'n rhedeg gerllaw YGG Caerffili
- Mae gwarchodwr plant cyfrwng Cymraeg yn ardal Bargod wrthi'n cofrestru
- 1 lleoliad gofal plant dwyieithog cyn ysgol wedi'i gofrestru yn ardal basn Caerffili
- 1 feithrinfa ddydd ddwyieithog yn ardal Pengam
- 17 lleoliad sesiynol Menter Iaith
- Daeth Dewi Sant yn lleoliad dwyieithog yn ystod 2019/20 ac nid yw bellach yn aelod o Fudiad Meithrin

Ni choladir y niferoedd ar gyfer pontio o'r lleoliadau a restrir gan nad ydynt yn aelodau o'r Mudiad Meithrin

Mae angen gwneud mwy o waith i archwilio'r rhesymau dros gyfraddau pontio is yn rhai o'r Cylchoedd Meithrin. Mae rhai wedi'u lleoli yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg ond yn dewis symud i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae gan rai lleoliadau niferoedd Dechrau'n Deg uchel a all gysylltu ag agosrwydd y feithrinfa ysgol, ond efallai y bydd gan eraill sydd heb leoedd 2 flwydd oed a ariennir gyfraddau pontio gwael hefyd. Mae datblygu darpariaeth o dan y grant cyfalaf gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi galluogi i leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg gael eu datblygu ymhellach ar safleoedd ysgolion neu'n agosach a hynny. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o symud Cylch Meithrin Coed Duon yn nes at Ysgol Gymraeg Trelyn a fyddai'n cefnogi gwelliant mewn cyfraddau pontio.
Mae angen gwaith pellach ar y maes hwn i ddeall pam y gall rhieni ddewis gofal plant cyfrwng Cymraeg gyda chyllid neu hebddo, ac yna peidio â phontio i feithrinfa ysgol cyfrwng Cymraeg.

## Canlyniad 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Roedd 291 (14.9%) disgybl 14-16 oed yn astudio cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn 2019/20 yn ôl ffurflen CYBLD, sy'n gynnydd o 12.9% yn 2018/19

Bu gostyngiad o ddysgwyr yn ennill unedau Gofal Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg o 628 yn 2018-19 i 542 yn 2019-20, oherwydd cau'n sydyn yn gynnar oherwydd COVID.

### GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i weithio ar draws y ddau safle ac mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd a Phartneriaeth 6, i ddatblygu cynnig eang i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

### CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

**Diweddariad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:**

Drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi ym mis Mawrth 2020 addasodd YGCRh er mwyn darparu gwersi i bob disgybl drwy amrywiaeth o wahanol ffurfiau h.y. ffrydio gwersi, darparu fideos a thasgau wedi'u recordio o flaen llaw a'u lanlwytho i blatfform Google Classroom. Roedd yr ysgol hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau gyda'n disgyblion mwy agored i niwed, drwy gysylltiad rheolaidd â'n tîm Lles. Wrth gwrs, roedd popeth yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg. Roedd yr ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â disgyblion drwy lu o sianeli gwahanol, a hefyd y rhieni drwy fideos rheolaidd, negeseuon e-bost, negeseuon Twitter, cyfathrebu ParentMail, ac ati. Roedd digonedd o'r rhain o'r adrannau addysgu, yr adrannau Lles ac Uwch Arweinwyr yr ysgol. Roedd y sianeli cyfathrebu hyn ar waith ochr yn ochr ag amserlen ddyddiol o wersi a ddarparwyd i'r plant drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi.

Ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi mae'r ysgol wedi mireinio'r ddarpariaeth a gynigir i blant ac wedi buddsoddi'n ariannol mewn technoleg ddigidol er mwyn gwella ac ehangu'r ddarpariaeth uchod, yn enwedig ar gyfer y grwpiau cynyddol o ddosbarthiadau a disgyblion sydd wedi bod yn hunan-ynysu oherwydd y feirws.

**Diweddariad Coleg y Cymoedd:**

Yn 2019-20, darparwyd unedau Iaith ar Waith (Gofal Cwsmeriaid Cyfrwng Cymraeg) mewn cyrsiau Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwyo, Busnes, Teithio a Thwristiaeth, y Diwydiannau Creadigol, Peirianneg, Adeiladu, Trin Gwallt, Harddwch, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon. Er iddynt gau'n gynnar oherwydd COVID, enillodd 542 o ddysgwyr gymhwyster uned achrededig CBAC ar Lefel Mynediad 3, Lefel 1 neu Lefel 2 yn y cyrsiau hyn. Mae'r ddarpariaeth wedi'i threfnu ar gyfer y cyrsiau Peirianneg Fodurol uchod yn 2020-21.

## Canlyniad 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu'n seiliedig ar waith

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Roedd 79 (24.6%) disgybl 16-19 oed yn astudio cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn 2019/20 sy'n gynnydd o'r 22.6% yn 2018/19

### GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i weithio ar draws y ddau safle ac mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd a Phartneriaeth 6, i ddatblygu cynnig eang i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

### CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

**Diweddariad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:**

Drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi ym mis Mawrth 2020 addasodd YGCRh er mwyn darparu gwersi i bob disgybl drwy amrywiaeth o wahanol ffurfiau h.y. ffrydio gwersi, darparu fideos a thasgau wedi'u recordio o flaen llaw a'u lanlwytho i blatfform Google Classroom. Roedd yr ysgol hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau gyda'n disgyblion mwy agored i niwed, drwy gysylltiad rheolaidd â'n tîm Lles. Wrth gwrs, roedd popeth yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg. Roedd yr ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â disgyblion drwy lu o sianeli gwahanol, a hefyd y rhieni drwy fideos rheolaidd, negeseuon e-bost, negeseuon Twitter, cyfathrebu ParentMail, ac ati. Roedd digonedd o'r rhain o'r adrannau addysgu, yr adrannau Lles ac Uwch Arweinwyr yr ysgol. Roedd y sianeli cyfathrebu hyn ar waith ochr yn ochr ag amserlen ddyddiol o wersi a ddarparwyd i'r plant drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi.

Ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi mae'r ysgol wedi mireinio'r ddarpariaeth a gynigir i blant ac wedi buddsoddi'n ariannol mewn technoleg ddigidol er mwyn gwella ac ehangu'r ddarpariaeth uchod, yn enwedig ar gyfer y grwpiau cynyddol o ddosbarthiadau a disgyblion sydd wedi bod yn hunan-ynysu oherwydd y feirws.

Mae Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori CBSC wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i gyflwyno sesiynau i fyfyrwyr ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg wrth chwilio am gyfleoedd addysg bellach/uwch neu gyflogaeth. Trefnwyd i'r sesiynau gael eu cyflwyno yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Martin Sant, fodd bynnag, maent wedi'u gohirio oherwydd y pandemig Covid-19 parhaus. Roedd y tîm hefyd yn mynd i fod yn rhan o'r Diwrnod Gyrfaoedd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae cynlluniau ar y gweill y bydd y rhain yn mynd rhagddynt yn 2021 drwy sesiynau rhithwir.

**Diweddariad Coleg y Cymoedd:**

Yn 2019-20, darparwyd gwersi Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel UG ac A2 yn y Ganolfan Safon Uwch gan arwain at gymhwyster dwyieithog yn gyffredinol. Cynhaliwyd dosbarth ailsefyll TGAU Mathemateg cyfrwng Cymraeg hefyd yn 2019-20. Mae'r Coleg wedi hysbysebu'n ddiweddar am staff cyfrwng Cymraeg ym maes Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn prosesu ffurflenni cais ym mis Ionawr 2021. Cefnogir y gwaith datblygu hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Diweddariad Urdd Gobaith Cymru:**

Mae Urdd Gobaith Cymru yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned a thu hwnt. Yn ystod 2019-2020, cymerodd nifer o blant a phobl ifanc o Gaerffili ran yn ein gweithgareddau, a oedd yn cynnwys twrnameintiau chwaraeon, fforwm ieuenctid, teithiau preswyl a chlybiau wythnosol. Ym mis Mawrth 2020, o ganlyniad i bandemig Covid-19, gohiriwyd ein holl weithgareddau cymunedol arfaethedig ar gyfer gweddill 2020. Fodd bynnag, hwyluswyd rhai sesiynau digidol cenedlaethol, a'r gobaith yw y gellir cyflwyno'r rhain ar lefel leol cyn bo hir i ategu gwaith cymunedol. Byddwn hefyd yn cynnig pecyn o weithgareddau i bob ysgol yn yr ardal y gellir eu teilwra i ysgolion unigol.
Mae Urdd Gobaith Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Caerffili a Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili ar y ddarpariaeth ieuenctid Gymraeg yn yr ardal. Mae'r gwaith hwn wedi parhau drwy gydol y pandemig, gyda'r Swyddog Ieuenctid yn gweithio ar brosiect arbennig gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.

## Canlyniad 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

### GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Bydd ysgolion yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg, ac yn parhau ag arloesedd drwy ddarpariaeth dysgu ar-lein a ddatblygwyd mewn ymateb i bandemig Covid.

### CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

**Diweddariad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:**

Drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi ym mis Mawrth 2020 addasodd YGCRh er mwyn darparu gwersi i bob disgybl drwy amrywiaeth o wahanol ffurfiau h.y. ffrydio gwersi, darparu fideos a thasgau wedi'u recordio o flaen llaw a'u lanlwytho i blatfform Google Classroom. Roedd yr ysgol hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau gyda'n disgyblion mwy agored i niwed, drwy gysylltiad rheolaidd â'n tîm Lles. Wrth gwrs, roedd popeth yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg. Roedd yr ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â disgyblion drwy lu o sianeli gwahanol, a hefyd y rhieni drwy fideos rheolaidd, negeseuon e-bost, negeseuon Twitter, cyfathrebu ParentMail, ac ati. Roedd digonedd o'r rhain o'r adrannau addysgu, yr adrannau Lles ac Uwch Arweinwyr yr ysgol. Roedd y sianeli cyfathrebu hyn ar waith ochr yn ochr ag amserlen ddyddiol o wersi a ddarparwyd i'r plant drwy gydol cyfnod y Cyfyngiadau Cloi.

Ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi mae'r ysgol wedi mireinio'r ddarpariaeth a gynigir i blant ac wedi buddsoddi'n ariannol mewn technoleg ddigidol er mwyn gwella ac ehangu'r ddarpariaeth uchod, yn enwedig ar gyfer y grwpiau cynyddol o ddosbarthiadau a disgyblion sydd wedi bod yn hunan-ynysu oherwydd y feirws.

Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, gweithiodd YGCRh ochr yn ochr â llawer o dimau ysgol eraill, gan ddarparu canolfan ddyddiol i blant gweithwyr allweddol gyda llu o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n bwydo YGCRh, ac ysgolion cynradd eraill nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg. Gweithiodd y bartneriaeth yn eithriadol o dda ac roedd disgyblion o'r ddau leoliad iaith yn elwa o'r cyfleoedd ychwanegol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod anodd hwn. Newidiodd YGCRh yn ystod y cyfnod hwn o ddarpariaeth 11-18 i ddarparu ar gyfer plant 3 oed a hŷn, gan alluogi grwpiau teuluol i gael eu cadw gyda'i gilydd a lleddfu'r heriau i rieni.

**Diweddariad Coleg y Cymoedd:**

Yn ystod ymateb Covid symudodd llawer o weithgareddau i ddysgwyr i ddarpariaeth ar-lein. Roedd hyn yn galluogi mynediad ehangach i'r rhai o bob rhan o'r 4 campws ddod at ei gilydd mewn gweithgareddau Cymraeg yn haws na phe baent yn teithio i leoliad penodol.

Cynhaliodd Coleg y Cymoedd Ŵyl Gerdd Ddwyieithog yn cynnwys Mr Phormula ym mis Medi 2019 a gefnogwyd drwy arian grant oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mynychodd 650 o fyfyrwyr gigs ar bob un o'r 4 campws a mynychodd 55 weithdai 'bît-bocsio' dwyieithog. Cafodd gweithgareddau eraill eu canslo oherwydd cyfyngiadau COVID, ond bydd digwyddiad 'LLUN LLES' nawr yn cael ei drosglwyddo i 2020-21 (os yw'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny).
Cynhelir hefyd cyfres o sesiynau Holi ac Ateb gyda Chymro enwog o'r cymoedd yn 2020-21, eto a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar-lein ar 04.11.20 gyda Siôn Tomos Owen.

Darperir llyfryn (ar-lein ac ar ffurf copi caled) ar gyfer dysgwyr yng Ngholeg y Cymoedd, o'r enw Cymraeg yn y Coleg. Fe'i cyhoeddwyd yn 2019-20 ar ffurf copi caled (ar-lein ar gyfer 2020-21). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd ei hangen ar siaradwyr Cymraeg ar ddewisiadau cwricwlwm, eu hawliau o dan Safonau'r Gymraeg, yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt a gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys 2 Glwb Cymraeg ar-lein (1 ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac 1 ar gyfer dysgwyr Cymraeg).

Mae gan yr unedau Gofal Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg a astudir yng Ngholeg y Cymoedd elfen o ymwybyddiaeth iaith wedi'i gynnwys ynddynt lle trafodir trosglwyddo iaith ymhlith llawer o agweddau eraill, megis y fantais o allu siarad Cymraeg yn y gweithle a'r manteision a ddaw yn sgil hyn o ran cyflogadwyedd posibl.

Mae'r Coleg hefyd yn defnyddio ei Lysgenhadon Cymraeg (a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) i annog darpar fyfyrwyr i weld y Coleg fel man lle bydd eu sgiliau Cymraeg yn cael eu croesawu a'u cefnogi.

**Diweddariad y Gwasanaeth Cyflawni Addysg:**

Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn rhanbarth y GCA wedi ennill dyfarniad arian yn Siarter yr Iaith Gymraeg ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu cefnogi gan Ysgol Penalltau a'u Criw Cymraeg ar Twitter.
Mae'r GCA wedi datblygu deunydd hyrwyddo i rieni i gefnogi dysgu eu plant a chysylltiadau â sefydliadau ac adnoddau cymorth amrywiol

https://spark.adobe.com/page/jukWji7b3NMHa/ (fersiwn cyfrwng Saesneg)

https://spark.adobe.com/page/HsK8VRP1o2Mwk/ (fersiwn cyfrwng Cymraeg)

## **Deilliant 6:** Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Cafodd 762 (13.3%) disgybl 3-19 oed eu hadnabod fel ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2019/20 yn ôl ffurflen CYBLD, sy'n gynnydd o 12.9% yn 2018/19

### GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Gweithredu offeryn parodrwydd Deddf ADY Clwstwr a chynlluniau gweithredu yn gweithio tuag at weithredu yn 2021 er mwyn sicrhau bod plant yn cael cymorth mewn darpariaeth briodol.

### CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

Mae ysgolion oll wedi cwblhau'r offeryn parodrwydd ADY ac mae'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydweithio i sicrhau bod yr ysgolion yn gallu cynnig darpariaeth addas ar gyfer pob dysgwr cyfrwng Cymraeg. Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Cwm Derwen a safle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Gelli Haf yn gweithio i gefnogi'r clwstwr i nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu orau yn eu prif ysgol, a'r rhai sydd angen darpariaeth fwy arbenigol.

Mae'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu hyfforddiant i staff ynghylch gweithredu'r Ddeddf ADY a'i gofynion.

| Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) |
|---|
| **DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL** |
| |
| **GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO** |
| Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i barhau i ddarparu cymorth iaith Gymraeg i staff ysgolion ar draws y rhanbarth<br><br>Menter Iaith Caerffili i barhau i gefnogi lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg i ddatblygu sgiliau Cymraeg<br><br>Mae Coleg y Cymoedd yn parhau i gefnogi ei dîm staff i wella eu sgiliau Cymraeg |
| **CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU** |
| Comisiynwyd Menter Iaith Caerffili (2018-22) i archwilio ac yna cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu adnoddau Cymraeg a sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector gofal plant. Yn y contract presennol mae pwyslais ar ddatblygu'r Ffordd i Ddwyieithrwydd, a fydd yn nodi lefel y Gymraeg, yn cefnogi anghenion ac yn datblygu cynllun gweithredu i wella'r Gymraeg ar draws pob lleoliad. Mae trefniadau contract cyfredol ar waith tan 31ain Mawrth 2021. Ers mis Ebrill 2020, mae'r cymorth hwn wedi'i ddarparu'n bennaf ar bellter ac yn ddigidol, fodd bynnag, mae rhai ymweliadau â lleoliadau wedi bod yn bosibl ers mis Medi 2020.<br><br>Yng Ngholeg y Cymoedd, gall staff fynychu'r Cynllun CYMRAEG GWAITH (4 awr yr wythnos) neu'r sesiynau DPP arferol ar amrywiaeth o lefelau (2 awr yr wythnos) yn ogystal â'r 2 gwrs ar-lein a gynigir drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br>Mae Coleg y Cymoedd yn cynnal Arolwg Sgiliau Staff bob 2 flynedd i ddiweddaru ein cronfa ddata. Disgwylir yr Arolwg nesaf ym mis Ionawr 2021<br><br>Mae Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori CBSC wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i gyflwyno sesiynau i fyfyrwyr ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg wrth chwilio am gyfleoedd addysg bellach/uwch neu gyflogaeth. Trefnwyd i'r sesiynau gael eu cyflwyno yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Martin Sant, fodd bynnag, maent wedi'u gohirio oherwydd y pandemig Covid-19 parhaus. Roedd y tîm hefyd yn mynd i fod yn rhan o'r Diwrnod Gyrfaoedd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae cynlluniau ar y gweill y bydd y rhain yn mynd rhagddynt yn 2021 drwy sesiynau rhithwir.<br><br>Mae 27 aelod o staff yn dysgu Cymraeg. Mae'r cyrsiau'n amrywio ac yn cynnwys cyrsiau 30 wythnos ar-lein sy'n amrywio o Fynediad i Hyfedredd a Dweud Rhywbeth yn Gymraeg (cwrs dwys 6 mis) |

| |
|---|
| Yn ystod y cyfnod cloi mae dros 500 o'r Cyrsiau Cymraeg Gwaith 10 Awr wedi'u cwblhau, yn bennaf gan staff ac athrawon yr ysgol. Mae data'n cael ei ddiweddaru'n barhaus a gobeithiwn erbyn y diweddariad nesaf y byddwn yn gallu darparu ffigurau o ran sawl athro a staff cymorth sydd wedi cwblhau'r cyrsiau hyn. |
| **CERRIG MILLTIR WRTH EDRYCH TUA'R DYFODOL** |
| Blaenoriaeth 1: symud ymlaen yn y rhaglen datblygu cyfalaf i ehangu'r ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg<br><br>Blaenoriaeth 2: archwilio ymhellach y rhesymau dros y tair cyfradd bontio isaf rhwng y Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd ysgolion cyfrwng Cymraeg<br><br>Blaenoriaeth 3: datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg<br><br>Blaenoriaeth 4: gweithredu'r Ddeddf ADY ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg<br><br>Blaenoriaeth 5: datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd a setiau data priodol, yn barod i'w gweithredu erbyn mis Medi 2022 |
| **Awdur:** Aelodau Fforwm Addysg Gymraeg<br><br>**Cymeradwywr:** Sarah Mutch, Rheolwraig y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau<br><br>**Dyddiad:** 20.12.2020 |

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES
# 22 MAWRTH 2021

**PWNC :** **TREFNIADAU DERBYN ARFAETHEDIG 2022/23**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau o'r Trefniadau Derbyn Ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/2023.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol, yn rhinwedd ei swydd fel Awdurdod Derbyn, ymgynghori (gyda'r holl Benaethiaid, Cyrff Llywodraethu ac Awdurdodau Derbyn cyfagos) ar eu trefniadau derbyn arfaethedig.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried y Trefniadau Derbyn arfaethedig a darparu unrhyw sylwadau perthnasol.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Sicrhau bod y Trefniadau Derbyn arfaethedig yn cael eu cymeradwyo ac y gellir eu gweithredu'n barod ar gyfer Derbyniadau ym mis Medi 2022.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Bydd Aelodau'n cofio yr ymgynghorir â nhw'n flynyddol ynghylch y Trefniadau Derbyn arfaethedig. Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Trefniadau Derbyn ar gyfer 2022/23 (ynghlwm).

5.2 Mae'r ymgynghorwyr yn cynnwys yr holl Benaethiaid, pob Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu ac awdurdodau lleol cyfagos. Yn ogystal, rhennir y Trefniadau Derbyn gyda Fforwm Derbyn yr awdurdod, ac wrth gwrs, y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes.

6. **RHAGDYBIAETHAU**

6.1 Nid oes unrhyw ragdybiaethau yn yr adroddiad hwn.

**7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR**

7.1 Cynllun Corfforaethol 2018 - 2023

7.2 Cynllun Gwella Gwasanaeth

7.3 Cynllun Datblygu Mynediadau

**8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y'u nodir yn y Dolenni i'r Strategaeth uchod. Mae'n gyson â'r pum ffordd o weithio fel y'u diffinnir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf o ran:

- **Tymor Hir -** Defnyddiwyd rhagolygon nifer y disgyblion i nodi'r galw am leoedd mewn ysgolion i sicrhau digon o leoedd addysgol yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer disgyblion dalgylch.
- **Atal -** Trwy weithio'n agos gyda chydweithwyr ac adrannau eraill i sicrhau bod darpariaeth ddigonol mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer disgyblion dalgylch.
- **Integreiddio -** Bydd y cynigion hyn yn caniatáu i ddisgyblion integreiddio yn eu cymuned leol. Mae'r cynigion hyn hefyd yn rhan o strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig.
- **Cydweithrediad -** Cydweithio â'r holl randdeiliaid perthnasol.
- **Cynnwys -** Trwy'r broses ymgynghori, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ymgysylltiad llawn â'r holl randdeiliaid perthnasol, e.e. ysgolion ac Awdurdodau Lleol eraill.

**9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

9.1 Aseswyd y Trefniadau Derbyn ar gyfer 2022/23 ac ni nodwyd unrhyw effaith negyddol. Mae'r trefniadau'n nodi cydymffurfiad â deddfwriaeth gyfredol Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Iaith Gymraeg.

**10. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

10.1 Dim

**11. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

11.1 Dim

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Mae'r Fforwm Derbyn yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu'r holl Drefniadau a Gweithdrefnau Derbyn.

12.2 Nodir ymgynghorwyr eraill isod.

## 13. PŴER STATUDOL

13.1 Y Cod Derbyniadau Ysgol (2013) a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgol (2013)

Awdur: Emma Strathdee, Rheolwr Derbyniadau, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau i Gwsmeriaid

Ymgynghorwyr: Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Cynghorydd Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Sarah Ellis, Arweinydd Cynhwysiad ac ADY
Sarah Mutch, Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Jane Southcombe, Pennaeth Gwasanaethau Cyllid
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Swyddog Gwella Busnes

Papurau cefndir:

Atodiadau:
Atodiad 1 Trefniadau Mynediad 2022-2023

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol**

**Directorate of Education and Corporate Services**

# Trefniadau Derbyn ar gyfer y Flwyddyn Academaidd Medi 2022 i Orffennaf 2023

A greener place
Man gwyrddach

## Cynnwys


Trefniadau Derbyn a Throsglwyddo Addysg Gynradd ac Uwchradd ........ 3
1.1 Dewis Ysgol ........ 4
1.5 Plant Genedigaeth Luosog ........ 7
1.6 Plant personél gwasanaethau y DU ........ 7
1.7 Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ........ 7
1.8 Rhestrau Aros ........ 7
2.1 Addysg Gynradd ........ 7
2.2 Lleihau maint Dosbarthiadau Babanod ........ 7
2.3 Derbyniad i Leoliad Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgol Feithrin ........ 7
2.4 Derbyniad i'r Ysgol Feithrin ........ 8
2.5 Trosglwyddo i Ysgolion Babanod neu adrannau Babanod o fewn Ysgolion Cynradd. ........ 8
2.6 Trosglwyddo i Ysgolion Iau ........ 8
2.7 Newid Ysgolion: Addysg Gynradd ........ 8
2.8 Derbyniad Plant i Ysgolion Uwchradd. ........ 9
2.9 Newid Ysgol Uwchradd. ........ 9
2.10 Gwneud Cais am Le ........ 9
2.11 Ceisiadau Hwyr ........ 9
2.12 Tynnu cynigion o leoedd yn ôl ........ 10
2.13 Derbyniadau Chweched Dosbarth ........ 10
2.14 Amserlen ar gyfer Derbyniadau i Ysgolion Medi 2022 ........ 11
2.15 Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn? ........ 12
2.16 Cofrestru eich Apêl ........ 12
2.17 Gwahaniaethu yn erbyn Anabledd ........ 12
2.18 Defnydd o Leoliadau Addysg ........ 13
2.19 Fforwm Derbyn ........ 13
2.20 Polisi'r Iaith Gymraeg ........ 13
2.21 Dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg. ........ 13

## Trefniadau Derbyn a Throsglwyddo Addysg Gynradd ac Uwchradd

Yn unol â Deddf Fframwaith a Safonau Addysg 1998, diweddariadau dilynol deddfwriaethol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, bwriad y trefniadau derbyn hyn yw i sicrhau:

Yr ystyrir dewis ysgol cyntaf y rhieni yng nghyd-destun fframwaith deddfwriaethol sy'n ystyried darpariaeth addysg effeithiol a defnydd effeithiol adnoddau.

Y dylai meini prawf derbyn fod yn glir, yn deg ac yn wrthrychol, er budd pob plentyn gan gynnwys plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anableddau.

Bod trefniadau derbyn lleol yn cyfrannu tuag at wella safonau.

Bod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ag Awdurdodau Derbyniadau cyfagos ac yn cydlynu trefniadau, gan gynnwys trefniadau er mwyn ail-gyfuno plant (lle'n rhesymol) sydd wedi eu gwahardd o ysgolion eraill.

Ei bod yn hawdd i rieni gael gafael ar wybodaeth ynghylch y trefniadau derbyn sydd o gymorth iddynt.

Nod trefniadau derbyniadau'r Awdurdod yw i fod yn unol â phob deddfwriaeth a chanllaw perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth ar faint y dosbarthiadau babanod a chyfle cyfartal (Deddf Cydraddoldeb 2012, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) ac yn cymryd pob sylw o ganllawiau'r Côd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn pwysleisio'r dyletswyddau cyfreithiol i'r Cyngor a'i bartneriaid. Rhaid iddynt:-

Waredu gwahaniaethu anghyfreithlon;

Hybu cyfle cyfartal;

Hybu cysylltiadau da a chyd-barch.

Bydd y Cyngor hwn yn gweithio yn erbyn gwahaniaethu ac yn ceisio creu mynediad cyfartal i bawb at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, iaith, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am bobl ddibynnol neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad iddo.

## 1.1 Dewis Ysgol

Rheolir a gweinyddir y broses derbyn plant i ysgolion gan 'Awdurdod Derbyn'. Yn achos Ysgolion Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfli yw hwn (yr ALl). Yn achos yr un Ysgol Wirfoddol Gymorthedig (Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen), yr Awdurdod Derbyn yw Corff Llywodraethu'r ysgol. O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu'n draddodiadol a elwir yn 'dalgylch.' Fel canlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r ALl roi cyfle i bob rhiant fynegi hoff ddewis ysgol yr ydynt am i'w plant ei mynychu.

**Nid oes gan ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch penodol yr hawl awtomatig i fynychu'r ysgol honno. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a bydd y lleoliadau'n cael eu dyrannu'n unol â meini prawf yr ALl.**

Gall rieni ddefnyddio'u hawl i fynegi dewis ar yr amserau canlynol:

Ar dderbyniad i ysgol fabanod neu adran fabanod mewn ysgol gynradd. Mae Derbyniadau i Ysgolion Meithrin yn cael eu trin yn Adran 1.2.

Wrth drosglwyddo o ysgol fabanod i ysgol plant iau neu adran plant iau mewn ysgol gynradd;

Wrth drosglwyddo o ysgol plant iau neu gynradd i ysgol uwchradd;

Ar unrhyw amser pan fo rhieni'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall.

Gall rhieni hefyd fynegi dewis i'w plentyn fynychu Ysgol Wirfoddol Gymorthedig.

Rhaid i'r ALl (yn achos yr Ysgolion Cymunedol) a Llywodraethwyr Ysgol (yn achos yr Ysgolion Wirfoddol Gymorthedig a Sefydledig) gydymffurfio gydag unrhyw ddewis a fynegir, ar yr amod fod lle o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r penderfyniad i dderbyn disgyblion ystyried y canlynol:-

y ddarpariaeth gyffredinol o addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau.

os ydyw'n ysgol gymysg neu un rhyw.

Adran 87 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (a diweddariadau deddfwriaethol dilynol a Chod Derbyniadau Ysgol LIC) sydd hefyd yn rhoi'r hawl i awdurdod derbyn i wrthod dewis y rhieni am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad neu waharddiad dilynol.

lle bydd derbyn disgybl yn groes i'r ddyletswydd o gael uchafswm o 30 mewn dosbarth babanod oherwydd y bydd y derbyniad hynny yn gofyn am fesurau cydymffurfiaeth a fydd yn achosi rhagfarn i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Fel arfer, caiff dalgylchoedd lleol ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg gynradd eu grwpio gyda'i gilydd i ffurfo dalgylch cysylltiedig ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir.

(gweler Rhan 2.32).

**Nid yw derbyniad na phresenoldeb disgyblion yn yr ysgol plant iau/gynradd gyswllt yn rhoi derbyniad awtomatig i'r ysgol uwchradd ddewisol. Mae'n rhaid i'r rhieni i gyd lenwi'r ffurflenni derbyniad ar yr amser priodol.**

Mae'r holl ysgolion o fewn yr Awdurdod Lleol yn anelu at ddarparu cyfle addysgol i'w disgyblion sydd yn addas i bob plentyn unigol. Bydd gan rai disgyblion, fodd bynnag, anghenion dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mewn rhai achosion, bydd rhieni'n derbyn cymorth ac arweiniad arbenigol yn barod wrth ystyried dewis ysgol i'w plentyn.

Anogir pob rhiant, fodd bynnag, i drafod meysydd posibl pryder gyda'u Pennaeth lleol a all geisio cyngor arbenigol wedi hynny.

Mae'r holl drefniadau uchod yn gymwys hefyd ar gyfer yr ysgolion Cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod. Nid yw derbyniad i Ysgolion Cynradd Cymraeg yn ddibynnol ar allu'r rhieni neu'r plant i siarad Cymraeg yn rhugl. Mae yna 11 ysgol gynradd Gymraeg o fewn yr Awdurdod ar hyn o bryd. Mae eu dalgylchoedd yn cynnwys yr holl Awdurdod ac nid ydynt yn gyfyng i ddalgylchoedd yr ysgolion cyfrwng Saesneg lleol. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn darparu addysg gyfun cyfrwng Cymraeg i bob disgybl o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfli, gan ddibynnu ar ddewis y rhieni.

## 1.2 Cyfyngiadau Derbyn

Bydd pob ysgol a gynhelir yn derbyn plant i fyny at eu lefel derbyniad cyhoeddedig. Caiff plentyn fel arfer gynnig lle yn ysgol dewis cyntaf y rhiant oni bai bod yr ysgol yn llawn yn nhermau'r nifer derbyn cydnabyddedig, pan fydd hyn yn digwydd, bydd pob cais ar gyfer yr ysgol honno yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifo.

Yr oedrannau arferol ar gyfer derbyniad yn ysgolion CBSC yw:-

3/4 oed mewn dosbarth Meithrin;

4/5 oed mewn Ysgolion Babanod a Chynradd;

7/8 oed mewn Ysgolion Iau;

11/12 oed mewn Ysgolion Uwchradd.

**Bydd angen i chi gyflwyno cais ar-lein ar bob un o'r camau uchod.**

Pan fyddwch yn cyflwyno cais i'ch plentyn fynychu'r dosbarth Derbyn mewn Ysgol Gynradd, ni fydd angen cais iddynt fynychu'r cyfnod Iau. Yn yr un modd, os byddwch chi'n cyflwyno cais i'ch plentyn fynychu'r dosbarth Derbyn yn Ysgol Idris Davies 3 i 18 oed, ni fydd angen i chi gyflwyno cais ar gyfer y cyfnod Iau neu Uwchradd.

Polisi'r Awdurdod yw rhoi yr hawl i le meithrin rhan amser wedi ei ariannu i holl blant 3/4 oed ym Mwrdeistref Sirol Caerfli, yn eu hysgol fabanod neu gynradd leol.

### 1.3 Meini Prawf Gordanysgrifio

Mae’r rhain yn gymwys ar gyfer pob derbyniad i ysgolion sydd wedi gordanysgrifio.

Plant sy’n Derbyn Gofal (sef Plant o dan ofal cyhoeddus) a’r plant hynny a oedd yn Derbyn Gofal yn flaenorol.

Y plant hynny sy’n byw yn nalgylch yr ysgol cyn neu ar y dyddiad cau cyhoeddedig.

*Noder: Bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer* eisoes yn mynychu'r ysgol yn cael eu derbyn yn gyntaf (rhaid i'r brawd neu chwaer fod o oed ysgol statudol), ac yna bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer yn cael eu derbyn.*

Plant gyda brodyr neu chwiorydd yn byw yn yr un cartref sy’n mynychu’r ysgol ym Medi 2020. Rhaid i’r brawd/chwaer fod o oedran ysgol statudol.

Ar ôl ystyried yr holl gategorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn cael ei seilio ar agosrwydd at yr ysgol wedi’i fesur gan gronfa ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol yr Awdurdod.

Mae pellter yn cael ei fesur o fynedfa neu gât agosaf y cartref i fynedfa neu gât agosaf yr ysgol.

*Noder: Nid yw'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn ystyried unrhyw lwybrau byr. Os oes gan yr ALl y sefyllfa lle mae unrhyw gyfeiriadau cartref yn cyfrif yr un pellter, yna defnyddir olwyn fesur i sefydlu'r cyfeiriad agosaf.*

** Mae brawd neu chwaer yn blentyn sy’n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sy’n rhannu un rhiant cyffredin), llys-frawd/chwaer lle y mae dau o blant yn perthyn drwy briodas. Mae’r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant wedi eu mabwysiadu neu eu maethu sy’n byw yn yr un cyfeiriad.*

## 1.4 Cyfeiriadau

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw yn nalgylch ysgol, y cyfeiriad a ystyrir yw cyfeiriad y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol, ni waeth beth yw trefniadau domestig teulu. h.y. ni ddylid rhoi cyfeiriad perthynas arall neu warchodwr plant ac ati. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r plentyn/plant dan sylw, er mwyn dangos cyfeiriad cartref y plentyn/plant.

Lle mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda’r ddau riant am ran o’r wythnos, wedyn bydd y cyfeiriad cartref yn cael ei benderfynu fel y cyfeiriad lle y mae plentyn yn byw am y rhan fwyaf o’r wythnos (e.e.3 allan o 5 diwrnod ysgol). Bydd rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i ategu’r cyfeiriad y mae nhw eisiau iddo gael ei ystyried am resymau dyrannu.

## 1.5 Plant Genedigaeth Luosog (e.e. efeilliaid neu dripledi).

Os wrth gymhwyso’r meini prawf gordanysgrifo, bydd y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o genedigaeth luosog e.e. efeilliaid neu dripledi yna bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

## 1.6 Plant personél gwasanaethau y DU

Bydd plant o bersonél gwasanaethau y DU yn cael eu trin fel bod o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn dod gyda llythyr swyddogol o’r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o’r cyfeiriad newydd. Bydd disgyblion o du allan i ddalgylch yr ysgol yn cael eu derbyn yn unol â dewis y rhieni os nad yw Nifer Derbyn yr ysgol, dosbarth neu uned wedi’i lenwi ac, os oes rhaid gwneud dewis, bydd y meini prawf uchod yn cael ei ddefnyddio.

## 1.7 Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg 1996 i'r Awdurdod Lleol dderbyn i'r ysgol blentyn â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol.

## 1.8 Rhestrau Aros

Yn dilyn dyraniad llefydd yn ystod y rownd derbyn arferol, bydd unrhyw ddisgybl sydd wedi cael ei wrthod i ysgol wedi’i gordanysgrifo yn aros ar y rhestr aros ar gyfer lle gwag tan 30ain Medi y flwyddyn addysgol honno a phetai lle gwag yn dod ar gael, bydd y lle’n cael ei ddyrannu yn unol â meini prawf gordanysgrifo’r awdurdod. Ar ôl 30ain Medi, bydd angen i rieni wneud cais newydd ar gyfer lleoliad yn eu hysgol o ddewis.

## 2.1 Addysg Gynradd

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob plentyn dderbyn addysg amser llawn o ddechrau tymor yr ysgol ar ol ei ben-blwydd yn bump oed. Yn CBSC, fodd bynnag, bydd pob plentyn yn gallu dechrau ysgol amser llawn ar ddechrau’r flwyddyn ysgol (mis Medi) lle maent yn cyrraedd pump oed h.y. rhwng 1 Medi a 31 Awst. Mae modd i rieni ohirio plentyn yn dechrau’r ysgol tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn pump oed.

Dylai pob plentyn allu fynychu ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed, ac ystyrir plant rhwng 3/4-11 oed yn ddisgyblion sy’n derbyn addysg gynradd. Ym Mwrdeistref Sirol Caerfli, darperir addysg gynradd naill ai mewn ysgolion babanod ac iau ar wahân, neu ysgol gynradd gydag un amrediad oedran cyfan o 3/4-11 oed.

## 2.2 Lleihau maint Dosbarthiadau Babanod

Mae dewis ysgol i blentyn ifanc am y tro cyntaf yn hynod o bwysig, i’r rhieni ac i’r plentyn hefyd. I gydymffurfio gyda deddfwriaeth Maint Dosbarth Babanod, ni fydd dosbarth babanod ysgol a gynhelir yn cynnwys mwy na 30 disgybl lle cynhelir y wers arferol gan athro/athrawes cymwys (neu lle cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro/athrawes cymwys, dim mwy na 30 disgybl fesul athro/athrawes).

## 2.3 Derbyniad i Leoliad Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgol Feithrin

Gall plant sy’n cael eu geni rhwng 1 Medi a 31 Mawrth, fod yn gymwys i dderbyn lle Blynyddoedd Cynnar (y tymor ar ôl iddynt fod yn 3 oed) yn eu hysgol Gynradd/Babanod leol, gan ddibynnu ar argaeledd.

Lle mae ysgol wedi cyrraedd eu Nifer Derbyn yn eu meithrinfa bresennol, a lle mae'r nifer y plant o'r dalgylch yn uwch na 70%, dim ond plant sy'n byw o fewn ardal dalgylch yr ysgolion bydd yn cael eu derbyn i leoliad Blynyddoedd Cynnar.

**Nodwch nad yw derbyn lle mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar naill ai yn nhymor y Gwanwyn neu'r Haf yn sicrhau addysg barhaol o fewn dosbarth meithrin yr ysgol. Bydd rhaid i chi wneud cais am dderbyniad i ddosbarth meithrin yr ysgol ar yr amser priodol.**

## 2.4 Derbyniad i'r Ysgol Feithrin

Mae'r nifer o lefydd sydd ar gael mewn ysgol feithrin yn cael ei osod gan yr ALl a gwneir y penderfyniad o dderbyn eich plentyn yn unol â chanllawiau'r ALl, sy'n dilyn.

**Ni fydd gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddosbarth meithrin, hawl "awtomatig" i addysg barhaol o fewn yr ysgol honno. Rhaid gwneud cais ffurfol ar gyfer derbyniad i'r flwyddyn derbyn ar yr amser priodol.**

## 2.5 Trosglwyddo i Ysgolion Babanod neu adrannau Babanod o fewn Ysgolion Cynradd.

Mae'n bosibl i blant sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn ysgol gael eu derbyn i ysgol/adran fabanod, ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Ni fydd gan ddisgyblion a gafodd eu derbyn i ysgol fabanod ar wahân, hawl 'awtomatig' i addysg barhaol yn yr Ysgol Iau y mae'n ei bwydo, sydd yn gwasanaethu'r un dalgylch. Tra gwneir pob ymdrech i gynnwys y fath ddisgyblion, rhaid gwneud cais ffurfiol ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Plant Iau ar yr amser priodol.

## 2.6 Trosglwyddo i Ysgolion Iau

Mae plant yn mynd i Ysgol Iau, neu'n trosglwyddo iddi, ar ddiwrnod cyntaf tymor yr Hydref yn dilyn eu pen-blwydd yn saith oed. Mewn Ysgolion Cynradd mae'r adrannau babanod a phlant iau yn adrannau o'r un ysgol ac mae plant yn symud drwy'r ysgol o'r adran fabanod i'r adran iau heb orfod trosglwyddo i unman arall.

Tra gwneir pob ymdrech i gynnwys y fath ddisgyblion, rhaid gwneud cais ffurfiol ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Plant Iau ar yr amser priodol.

## 2.7 Newid Ysgolion: Addysg Gynradd

Mae newid ysgolion yn ystod addysg gynradd yn gam sylweddol i'ch plentyn ei gymryd. Yn achos symud cartref y teulu, mae'n bosibl fod y fath benderfyniad yn rheidrwydd a bydd angen i chi gysylltu â'ch ysgol leol neu'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes am gymorth. Os sut bynnag, yr hoffech i'ch plentyn drosglwyddo o un ysgol i un arall, cysylltwch â'ch Pennaeth presennol yn gyntaf. Os ydych dal yn dymuno parhau gyda'r trefniadau trosglwyddo gallech wneud cais arlein yn https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Admissions-and-appeals/Primary-and-secondary-school-admissions?lang=cy-gb.

Os oes lle gwag addas, bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Dylai rhieni nodi, fodd bynnag, y gall dosbarthiadau gynnwys fwy nag un grŵp oedran a bydd gan y Pennaeth y dasg o roi eich plentyn yn y dosbarth mwyaf priodol.

## 2.8 Derbyniad Plant i Ysgolion Uwchradd.

Mae plant fel arfer yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu hunfed pen-blwydd ar ddeg. Os yw dyddiad geni eich plentyn rhwng y 1 Medi 20010 a 31 Awst 2011 bydd ef/hi yn trosglwyddo'n awtomatig i'ch ysgol uwchradd leol ym mis Medi 2022. Bydd prifathrawon ysgolion cynradd yn gallu hysbysu rhieni o'r ysgol uwchradd arferol y dylai eu plentyn fynychu. Dylid nodi bod y cyfeiriad cartref yn dynodi pa ysgol yw'r ysgol 'dalgylch' ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd. Tra y gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer eich plentyn, rhaid gwneud cais er mwyn trosglwyddo i ysgolion uwchradd ar yr amser priodol.

## 2.9 Newid Ysgol Uwchradd.

Mae newid ysgolion uwchradd yn gam sylweddol i'ch plentyn ei gymryd. Yn achos symud cartref y teulu, mae'n bosibl fod y fath benderfyniad yn rheidrwydd a bydd angen i chi gysylltu â'ch ysgol leol neu'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes am gymorth. Os, fodd bynnag, yr hoffech drosglwyddo'ch plentyn o un ysgol uwchradd i un arall, cysylltwch â'ch Pennaeth presennol yn gyntaf. Os ydych dal yn dymuno i barhau gyda'r trefniadau trosglwyddo, dylech gysylltu â'r Gyfadran Addysg a a Gwasanaethau Corfforaethol am gyngor ar wneud eich cais, a fydd wedyn ei angen yn ysgrifenedig. Wrth ystyried eich cais ar gyfer trosglwyddo, bydd yr Awdurdod Addysg Leol yn adolygu nifer y disgyblion yn y grŵp oedran priodol i'ch plentyn. Os yw'r plentyn ym mlynyddoedd 10 neu 11, gall yr amrediad o opsiynau pwnc dewisol hefyd fod yn ffactor. Os nad yw'r flwyddyn benodol honno wedi cyrraedd cyfyngiad derbyn cyhoeddedig yr ysgol, yna bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Dylai rhieni nodi, fodd bynnag, y gall dewisiadau opsiwn cwricwlwm amrywio o ysgol i ysgol.

## 2.10 Gwneud Cais am Le

Pan rydych yn gwneud cais am le mewn ysgol benodol, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais sydd ar gael ar-lein yn **https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Admissions-and-appeals/Primary-and-secondary-school-admissions?lang=cy-gb**

Rhaid i chi wneud cais erbyn y dyddiadau cau a ddangosir isod ar gyfer derbyniad ym mis Medi 2022.

Am unrhyw gymorth gyda llenwi'r ffurflen, a wnewch chi gysylltu â Thîm Derbyniadau Ysgol ar 01443 864870 / 01443 864897.

Bydd yr All yn eich hysbysu ynglŷn ag os ydyw'n bosibl neu beidio i'ch plentyn fynychu'ch ysgol ddewisol. Mae pob ysgol yn darparu pros-bectws sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol gan gynnwys nodau a chredoau addysgol yr ysgol, trefniant yr ysgol a chyfleoedd cwricwlaidd, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r prosbectws ysgol hon ar gael oddi wrth y Pennaeth.

## 2.11 Ceisiadau Hwyr

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn yn cael eu gwrthod os yw'r ysgol wedi ei gordanysgrifio oni bai bod y teulu wedi symud i mewn i'r dalgylch a bod y cais yn cael ei dderbyn cyn i'r cynnig o leoedd gael ei wneud. Os yw'r cais yn cael ei dderbyn ar ôl i'r lleoedd gael eu cynnig a bod tystiolaeth ddogfennol yn cael ei darparu i ddangos bod y teulu wedi symud i mewn i ddalgylch yr ysgol, bydd y disgybl yn cael blaenoriaeth uwch ar y rhestr aros. Yna bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r awdurdod.

## 2.12 Tynnu cynigion o leoedd yn ôl

Bydd y cynnig o le mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl ar sail derbyn cais twyllodrus neu gamarweiniol yn fwriadol (e.e. honni ar gam bod y plentyn yn byw o fewn dalgylch ysgol).

## 2.13 Derbyniadau Chweched Dosbarth

Ysgolion unigol sy'n pennu pa ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r Chweched Dosbarth mewn ysgolion cymunedol. Felly, dylid gwneud ceisiadau i'r ysgol yn uniongyrchol.

## 2.14 Amserlen ar gyfer Derbyniadau i Ysgolion Medi 2022
200

Ceisiadau ar gyfer Ysgolion Cyfun

| | |
|---|---|
| Ffurflenni Derbyn ar gael i rien | 1 Medi 2021 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau | 22 Hydref 2021 |
| Hysbysu'r rhieni am y canlyniad | 1 Mawrth 2022 |

Ceisiadau ar gyfer Ysgolion Cynradd

| | |
|---|---|
| Ffurflenni Derbyn ar gael i rien | 9 Tachwedd 2021 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau | 18 Rhagfyr 2021 |
| Hysbysu'r rhieni am y canlyniad | 16 Ebrill 2022 |

Ceisiadau ar gyfer Ysgolion Meithrin

| | |
|---|---|
| Ffurflenni Derbyn ar gael i rien | 1 Medi 2021 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau | 25 Chwefror 2021 |
| Hysbysu'r rhieni am y canlyniad | 6 Mai 2022 |

## 2.15 Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?

Yn y mwyafrif helaeth o achosion cynigir llefydd i blant yn ysgol ddewis cyntaf y rhieni. Os, fodd bynnag, nad yw eich plentyn yn gallu cael ei dderbyn, rhaid i chi benderfynu os ydych yn fodlon derbyn lle a gynigir mewn ysgol wahanol, neu os ydych yn dymuno parhau gyda'ch cais cyntaf. Os ydych yn dewis y cwrs diwethaf, gallwch apelio at Bwyllgor Apelio Annibynnol. Bydd y Pwyllgor Apelio Annibynnol hwn yn barnu a yw'r ysgol yn llawn ac os felly, a yw cais y rhiant mor gryf fel y dylid parhau i gynnig lle i'r plentyn.

**Dylid nodi nad oes gan ddisgyblion Meithrin yr hawl i apelio.**

## 2.16 Cofrestru eich Apêl

Gallwch wneud apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad yr ALI, ond rhaid derbyn hwn o fewn 28 diwrnod calendr o'ch hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad i beidio â derbyn eich plentyn i'ch ysgol ddewisol. Dylech anfon yr apêl ymlaen yn ysgrifenedig i'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes. Bydd yr ALI yn cyfeirio'r apêl at Isadran Gyfreithiol y Cyngor er mwyn trefnu i'r apêl fynd at y Pwyllgor Apelio Annibynnol a fydd yn gosod amser a lle ar gyfer y gwrandawiad. Bydd y Panel yn rhoi cyfle i'r rhieni ymddangos i gyflwyno eu cais (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig). Gall rhieni ceisio mynediad i ysgol arall tra maent yn dilyn apêl.

Fodd bynnag, cynghorir rhieni : -

Bod hawl ganddynt ddewis peidio â mynychu'r cyfarfod apêl ac, yn lle hynny, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar ffurf datganiad ysgrifenedig;

Y caiff yr apêl ei benderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael os, ar ôl methu â rhoi esboniad boddhaol, nid ydynt yn ymddangos yn yr apêl;

Y byddant yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig (o'r dyddiad postio) yn eu hysbysu o ddyddiad cyfarfod y Panel Apelio;

Bod croeso iddynt ddod â ffrind, neu gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr/wraig, ond y dylid, yn yr achos diwethaf, hysbysu'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad.

Nodwch fod Pwyllgorau Apelio ar wahân yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig neu Sefydledig. Rhaid cael cyngor felly am apêl o'r fath oddi wrth yr Ysgol berthnasol.

Noder bydd cyfyngiad ar bwerau'r panel apelio i gefnogi apeliadau yn erbyn gwrthod rhoi le i blentyn mewn ysgol lle mae deddfwriaeth maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol.

Ni fydd yr Awdurdod yn ystyried ail gais am dderbyniad oni bai bod newid sylweddol mewn amgylchiadau (a byddai angen tystiolaeth o hyn).

## 2.17 Gwahaniaethu yn erbyn Anabledd

Mae gan y Cyngor Strategaeth Hygyrchedd ar waith sy'n rhoi manylion am sut y bydd y Cyngor yn cwrdd â'I ddyletswyddau anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth gwahaniaethu yn erbyn anabledd blaenorol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys pob agwedd o hygyrchedd gan gynnwys derbyniad i adeiladau, y cwricwlwm a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynlluniau'r Cyngor i wella mynediad corfforol i adeiladau ysgol ar draws y fwrdeistref i leihau'r rhwystrau i ddisgyblion anabl sydd am dderbyn addysg. Mewn nifer o achosion oherwydd topograffeg safle ysgol, efallai nad

yw'n cael ei ystyried yn hygyrch ar gyfer plentyn ag anabledd corfforol. Mewn achosion o'r fath, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu darparu gyda manylion o'r ysgol hygyrch agosaf a fydd yn gallu cwrdd ag anghenion y plentyn.

Mae ffurflenni derbyn yn cael eu sgrinio gan Addysg er mwyn amlygu unrhyw blant sydd â chyflwr meddygol/anabledd corfforol. Cysylltir â rhieni ar y cyfle cyntaf i drafod anghenion y plentyn a bydd lleoliad ysgol addas yn cael ei ystyried. Mae'r Ysgol a Swyddogion y Cyngor yn gweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau bod asesiadau manwl mewn lle i gefnogi cynhwysiad disgyblion, lle bo hynny'n bosibl, o fewn eu dewis ysgol.

## 2.18 Defnydd o Leoliadau Addysg

Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'n barhaol y defnydd o leoliadau addysg ym mhob ysgol Fabanod, Iau a Chynradd ac wedyn yn diweddaru'r Rhif Capasiti a Derbyn i adlewyrchu'r adolygiad hwn. Bydd dyraniad lleoedd yn cael ei wneud gan ddefnyddio Trefniadau Derbyn a gyhoeddir gan yr Awdurdod.

## 2.19 Fforwm Derbyn

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 mae'r Awdurdod wedi sefydlu Fforwm Derbyn a fydd yn ein galluogi i ddod ag awdurdodau derbyn ac eraill ynghyd sydd yn ymwneud â'r broses derbyn o fewn yr ardal.

## 2.20 Polisi'r Iaith Gymraeg

Yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Ebrill 2010) Llywodraeth Cymru, polisi'r ALl yw y dylai bob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg yn effeithiol. Yn gyfredol gwneir darpariaeth ar gyfer hyn yn y ffyrdd canlynol, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae addysg ar gael mewn Ysgolion Cynradd Cymraeg i'r holl ddisgyblion y mae eu rhieni yn dewis y cyfrwng addysg hwnnw. Er mai prif gyfrwng yr hyfforddi yw Cymraeg, gall ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 hefyd astudio rhaglenni astudiaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Saesneg i'r lefel briodol.

Bydd disgyblion yn gallu parhau gyda'u haddysg mewn Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg.

## 2.21 Dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg.

Yn y cyfnod sylfaen, dysgir Cymraeg i bob disgybl. Rhoddir y pwyslais ar ddefnyddio'r iaith gyda phwrpas ac mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Yn ychwanegol, anogir defnydd achlysurol o'r iaith yn ystod y diwrnod ysgol.

Yng nghyfnod allweddol 2, datblygir yr iaith lafar ymhellach, a rhoddir mwy o sylw i sgiliau dysgu, darllen ac ysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 3 a 4 dysgir Cymraeg i'r disgyblion i gyd. Darperir cyfleoedd ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau 16+ a lefel "A".